**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1325
Ein cyf/Our ref LW/00306/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

07 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Chwefror ynghylch Deiseb P-06-1325 Gostwng y cyfyngiad cyflymder ar yr A5 drwy Glasfryn.

Mae gwella diogelwch ar y ffyrdd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid eraill yn barhaus i nodi lleoliadau lle mae angen mesurau peirianneg diogelwch ar y ffordd. Mae barn trigolion lleol yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau gwybodus pan fydd rhannau o ffyrdd yn cael eu hadolygu ac rwy'n gwerthfawrogi natur ddifrifol y pryderon sy'n cael eu codi gan y ddeiseb hon.

Rydym wedi adolygu'r terfyn cyflymder ar yr A5 drwy Glasfryn yn erbyn y meini prawf yng nghanllawiau presennol Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru. Er fy mod yn gwerthfawrogi nad dyma'r canlyniad y mae'r deisebydd yn gobeithio amdano, ni argymhellodd yr adolygiad hwnnw unrhyw newid i'r cyfyngiad cyflymder 60mya presennol.

Fodd bynnag, gallaf gadarnhau ein bod yn y broses o ddiweddaru canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru i adlewyrchu polisi presennol Llywodraeth Cymru gan gynnwys cyflwyno terfynau cyflymder 20mya ac i gyflawni'r uchelgeisiau a amlygwyd yn Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021. Gall y gwaith hwn olygu newid yn y meini prawf ar gyfer terfynau cyflymder is yng Nghymru. Gallwch gael rhagor o fanylion, gan gynnwys cyfle i roi sylwadau ar y canllawiau presennol, yma. Disgwylir i'r canllawiau diweddaraf gael eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn, ac ar ôl hynny byddwn yn adolygu'r terfynau cyflymder ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd. Ni fyddai'n addas adolygu unrhyw derfynau cyflymder nes bod y canllawiau newydd hyn yn cael eu cyhoeddi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gan Gan Bwyll, y Bartneriaeth Diogelwch Ffyrdd gyfrifoldeb am orfodi terfynau cyflymder a gallaf gadarnhau bod gan y rhan hon o’r A5 Gamerâu Cyflymder Cyfartalog yn gweithredu, gan ffurfio rhan o safle gorfodi camerâu cyflymder cyfartalog ‘Triongl Evo’. Serch hynny, os oes unrhyw bryderon am gyflymder traffig, byddwn yn annog y deisebydd ac unrhyw drigolion lleol pryderus i gysylltu’n uniongyrchol â Gan Bwyll i dynnu sylw at eu pryderon drwy’r dudalen we ganlynol: <https://gosafe.org/contact-us/community-concern/?lang=cy>

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change